# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 20 Gorffennaf 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i ailagor gorsaf reilffordd Hirwaun? (WAQ50226)

**Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Atebaf y cwestiwn hwn fel y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

Nid oes cynlluniau i ailagor gorsaf reilffordd Hirwaun ar hyn o bryd. Penderfyniad Sewta, y consortiwm trafnidiaeth ar gyfer De Orllewin Cymru, fyddai ystyried y cynnig hwn i ddechrau a'i gynnwys, gyda'r flaenoriaeth angenrheidiol, o fewn eu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog egluro'r oedi cyn comisiynu'r goleuadau yng nghyffordd Croesbychan ar yr A465? (WAQ50229)

**Ieuan Wyn Jones:** Atebaf y cwestiwn hwn fel y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

Mae oedi wedi bod o ganlyniad i broblemau o ran mynediad i dir er mwyn gosod cyflenwad i Western Power Distribution ar gyfer rhoi cyflenwad pŵer. Mae'r problemau hyn wedi'u datrys bellach a bydd golau ar gael ar y gyffordd erbyn diwedd yr wythnos hon.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddatblygu pier y de yn Aberaeron er mwyn amddiffyn yr harbwr llanw bregus rhag gwyntoedd y gogledd orllewin sy'n bygwth achosi llifogydd yn y dref trwy geg yr harbwr adeg llanw mawr? (WAQ50238)

**Y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Datblygu Gwledig (Jane Davidson):** Atebaf y cwestiwn hwn fel y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Thai.

Cyfrifoldeb naill ai Asiantaeth yr Amgylchedd neu'r awdurdod lleol priodol yw'r pwerau gweithredol i gynnal a gwella dulliau amddiffyn arfordirol o amgylch Cymru. Yn achos Pier y De yn Aberaeron, gan yr awdurdod lleol y mae'r pwerau perthnasol sy'n hyrwyddo'r broses o gyflawni gwaith gwella ar gyfer ffrynt arfordirol Aberaeron. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog ac yn ariannu gwaith o'r fath drwy gymorth grant. Byddai rhyddhau grant o'r fath yn dilyn cais ffurfiol a gaiff ei gefnogi gan achos busnes, a byddai angen cynnwys cyfiawnhad dros gyflawni'r gwaith.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi comisiynu astudiaethau i asesu opsiynau i ddatrys y problemau ar hyd ffrynt arfordirol Aberaeron. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried gwneud gwaith i Bier y De a ddifrodwyd yn ystod stormydd y gaeaf y llynedd. Deallaf y caiff yr arfarnau hyn eu cwblhau erbyn yr hydref a bod Ceredigion wedyn yn bwriadu cyflwyno cais i Lywodraeth y Cynulliad am gymorth grant. Yn amodol ar gael y caniatadau priodol, mae Ceredigion yn bwriadu dechrau ar y gwaith adeiladu ar y prosiect hwn yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Yn y cyfamser, mae Ceredigion yn cynnal gwaith atgyweirio ar y rhannau hynny o'r ffrynt hwnnw a ddifrodwyd yn ystod y gaeaf y llynedd ac sydd angen sylw ar unwaith arnynt.

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda swyddogion yr awdurdod lleol ac fe'm hysbyswyd bod arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i neilltuo i fod ar gael ar gyfer y prosiect hwn yn ystod y flwyddyn ariannol hon.